# Trefnu sioe yn eich cymuned



Krosswindz, Wales Puja Committee, Canolfan Cymunedol Penyrheol (Llun: Nuria Serna)

Mae Noson Allan yn helpu grwpiau cymunedol yng Nghymru i lwyfannu sioeau proffesiynol yn eu hardaloedd lleol drwy ddileu'r perygl ariannol iddynt.

## Cyn y digwyddiad

Cysylltwch â ni yn swyddfa Noson Allan neu ewch i'n gwefan am syniadau gwych ar gyfer sioeau i'ch neuadd. Neu gallwch archebu perfformwyr proffesiynol rydych chi wedi'u gweld mewn mannau eraill, ond nid ydym yn cefnogi corau, pantomeimau na bandiau teyrnged.

Cysylltwch â'r perfformiwr, gwnewch yn siŵr bod eich lleoliad yn ddigon mawr ar gyfer eu sioe, gwirio beth sydd ei angen arnynt ac a ydynt yn darparu deunyddiau cyhoeddusrwydd, yna cytunwch ar ddyddiad. Gwnewch gais i Noson Allan ar-lein ar ein gwefan. Gwnewch eich cais o leiaf 4 wythnos cyn y digwyddiad ond yn ddelfrydol yn gynharach. Chi sy'n gosod pris y tocynnau a ddylai adlewyrchu gwerth y sioe a beth sy'n fforddiadwy yn eich cymuned; rydym yn gallu argraffu tocynnau ichi os ydych eisiau heb dâl ychwanegol.



Bash Street Theatre, Ysgol Y Graig (Llun: Vision Foundation)

Bydd Noson Allan yn talu ffioedd y perfformiwr sy'n gallu amrywio'n fawr o ran pris ac mae'n gallu costio hyd at £1,100. Rydych chi'n cael y perfformiwr am bris â chymhorthdal sydd ar hyn o bryd yn 50% o'r ffi llawn hyd at uchafswm o £300 (£200 os yw'r lleoliad yn yr 20% uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

Mewn rhai achosion, bydd modd inni drefnu i'ch awdurdod lleol warantu hyn yn llwyr neu'n rhannol fel bod eich perygl o golli arian naill ai'n lleihau neu'n diflannu.

Mae'n bosibl archebu sioeau drutach sy'n costio mwy na £1,100 hyd at uchafswm ffi perfformiwr o £3,000. Ond ni fydd cymorth ar gael gan awdurdodau lleol ac yn hytrach na bod y warant yn £300, bydd y swm y mae'n rhaid i'ch sefydliad chi ei dalu'n ôl yn cynyddu gan yr un swm y mae ffi'r perfformiwr yn uwch na'r £1,100.

| Cyfanswm ffi perfformwyr | Hyrwyddwr yn talu (isafswm gwarant) |
|---|---|
| £300 | £150 |
| £500 | £250 (£200 ardal amddifadedd) |
| £600 | £300 (£200) |
| £1,100 | £300 (£200) |
| £1,200 | £400 (£300) |
| £2,500 | £1,700 (£1,600) |

## Cynnal y digwyddiad

Chi sy'n gyfrifol am gynnal y digwyddiad felly gwnewch yn siŵr bod gennych eraill sy'n gallu eich helpu gyda'r gwaith.

Efallai y bydd arnoch angen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN). Cysylltwch â'ch awdurdod lleol. Os oes angen un, rhaid gwneud cais am un o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Os oes ei angen ac nad ydych yn gwneud cais mewn pryd, rhaid canslo'r digwyddiad ac efallai y byddwch yn gorfod talu ffioedd canslo.

Gwiriwch gyda'r perfformwyr pryd y byddwch yn derbyn cyhoeddusrwydd neu wybodaeth i'r wasg, pryd maent am osod y llwyfan, sut mae'r sioe yn cael ei llwyfannu, lle hoffent newid ac unrhyw faterion technegol neu hygyrchedd – bydd llun o'r gofod perfformio yn helpu. Gofynnwch a hoffent gael bwyd neu diod ar y noson ac os felly, gofynnwch am eu gofynion dietegol.

Efallai mai'r cyfryngau cymdeithasol yw'ch opsiwn gorau i farchnata a hyrwyddo ond hyrwyddwch y digwyddiad i'ch gwasg lleol a'ch cymuned leol; gosodwch bosteri a chofiwch fod clywed gan bobl eraill am y digwyddiad yn hanfodol. Cofiwch gydnabod cefnogaeth Noson Allan a chynnwys gwybodaeth am hygyrchedd y lleoliad i bobl anabl (logos ar gael ar ein gwefan).

Ar ddechrau'r digwyddiad, cyflwynwch y sioe a soniwch a oes egwyl, ewch drwy faterion sylfaenol iechyd a diogelwch (allanfeydd tân, diffodd ffonau symudol ac ati) a chydnabod cefnogaeth gan Noson Allan ac arianwyr eraill. Oni bai bod y perfformwyr yn dweud fel arall, caewch y bar neu'r siop fwyd yn ystod y perfformiad a gwnewch yn siŵr nad yw'r raffl egwyl yn rhedeg yn hwyr. Cofiwch fwynhau!



Circus Raj, (Llun: Roxanne Hawkins)

## Wedyn

(efallai y bydd trefniadau ariannol yn amrywio ychydig)

Rydym yn talu'r ffi lawn i'r perfformiwr ar ôl derbyn ei anfoneb a'i ffurflen adrodd.

Rydych yn llenwi ein ffurflen adroddiad syml sy'n datgan incwm eich tocynnau ac, unwaith y byddwn yn anfon anfoneb atoch, rydych yn gwneud unrhyw daliad i Arts Council of Wales. Ar gyfer taliadau uniongyrchol, mae ein manylion banc ar waelod yr anfoneb.

Os nad ydych yn gwneud £300 / £200 ond bod gennych warant gan eich awdurdod lleol, bydd hyn yn talu am y gwahaniaeth. Anfonwch incwm y tocynnau sydd gennych a byddwn yn bilio eich awdurdod lleol am y gweddill. Rydym yn disgwyl ichi wneud eich gorau glas i werthu'r perfformiad. Os ydych yn gwneud mwy na £300 / £200 byddwch yn gallu cadw'r £100 nesaf o elw, neu fwy os yw'ch costau cytûn yn uwch.

Rhaid dychwelyd unrhyw arian ar ôl hynny, hyd at gost lawn y perfformiwr, i Noson Allan er mwyn inni allu cefnogi digwyddiad rhywun arall. Mae hyn ddim ond yn wir am incwm y tocynnau. Byddwch yn gallu cadw unrhyw arian sy'n dod o werthu lluniaeth neu raffl.

## Cysylltu â ni

Am gymorth a chyngor pellach am hyrwyddo eich digwyddiad, gan gynnwys 'Cyngor i Hyrwyddwyr' a 'Mae'n Hawdd Bod yn Ddwyieithog', lawrlwythwch y wybodaeth o'n gwefan neu cysylltwch â ni ar **029 2044 1340** neu drwy ebost: ymholiadau@nosonallan.org.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Noson Allan
Night Out